

Canllaw Cymydog Da

Mae'r mwyafrif o gymdogion yn ceisio dod ymlaen gyda'i gilydd ond weithiau bydd problemau'n codi. Os mae hyn yn digwydd, fel **Cymydog Da**, mae sawl peth y gallwch ei wneud i ddatrys problemau ymddygiad sy'n achosi niwsans.

Os mai dyma'r tro cyntaf rydych wedi cael problemau gyda'ch cymydog, mae'n aml yn helpu os ydych yn ceisio datrys y problemau gyda'ch cymydog yn gyntaf cyn cynnwys trydydd parti. Efallai nad yw eich cymydog yn sylweddoli eu bod wedi achosi problem. Gellir datrys y mwyafrif o broblemau cymdogion yn gynnar.

CADWCH YN DAWEL AC YN AMYNEDDGAR DRWY'R AMSER

Efallai bod gan y broblem ateb syml iawn ac efallai nad oedd eich cymydog wedi sylweddoli bod problem wedi datblygu. Isod mae ychydig o reolau syml i'w dilyn os ydych yn bwriadu mynd at eich cymydog i drafod y broblem.

Beth ddylech ei wneud

- ✓ Ceisiwch ddatrys pethau eich hunan gyntaf
- ✓ Cadwch yn dawel ac yn amyneddgar drwy'r amser
- ✓ Gweithiwch allan beth rydych am ei ddweud cyn i chi fynd atynt
- ✓ Ewch at eich cymydog pan rydych yn gwybod bod amser ganddynt i siarad â chi (nid pan rydych yn gwybod eu bod ar eu ffordd i'r gwaith)
- ✓ Siaradwch â nhw wyneb-i-wyneb pan maent ar ben eu hunain
- ✓ Siaradwch yn gwrtais ac yn dawel gyda nhw
- ✓ Gwrandewch ar eu hochr hwy o'r ddadl
- ✓ Byddwch yn barod i gyfaddawdu
- ✓ Gadewch yn syth os yw pobl yn ymosodol neu'n fygythiol pan rydych yn mynd atynt - os yw hyn yn digwydd bydd yn rhaid i chi ystyried cael cymorth i ddatrys y broblem.

Beth na ddylech ei wneud

- ✗ Peidiwch â siarad â'ch cymydog os ydych yn grac neu wedi eich cythruddo
- ✗ Peidiwch â gwrthod eu heglurhad am y broblem
- ✗ Peidiwch â rhegi neu weiddi ar eich cymydog
- ✗ Peidiwch â cholli eich tymer, bod yn fygythiol neu ddefnyddio iaith gorfforol ymosodol neu iaith wahaniaethol.

Os ydych yn teimlo eich bod wedi ceisio siarad â'ch cymydog ynghylch eu hymddygiad neu eu gweithredoedd sy'n achosi problemau (fel niwsans sŵn) ond nad yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth, efallai ei bod hi'n amser i ofyn am gymorth gan rywun.

SUT I NODI CWYN

Os ydych yn teimlo bod eich cymydog yn achosi problemau i chi, cysylltwch â'ch swyddfa tai i gael cyngor ac i adrodd y broblem yn ffurfiol os oes angen.

Os yw eich cymydog yn denant y Cyngor dylech gysylltu â'ch swyddfa tai leol yn gyntaf er mwyn nodi eich cwyn. Fodd bynnag, gallwch nodi'r broblem yn y ffyrdd canlynol.

- i'ch swyddfa tai leol mewn person, yn ysgrifenedig neu dros y ffôn - gweler yr adran Cysylltu â Ni am fanylion cyswllt yng nghefn y llawlyfr hwn.
- cofrestrwch eich cwyn ar y wefan www.caerffili.gov.uk
- ewch i ymweld ag un o Ganolfannau Cwsmer yn Gyntaf y Cyngor

Cyfeirir pob cwyn o niwsans neu ymddygiad gwrthgymdeithasol at yr Is-Adran Gorfodaeth Tenantiaid. Byddant yn asesu ac yn graddio'ch cwyn ac yn penderfynu pwy fydd yn archwilio'ch cwyn. Bydd cwynion llai difrifol yn cael eu harchwilio gan eich Swyddog Rheoli Ystadau, ond bydd materion mwy difrifol, fel ymosodiad, ymddygiad bygythiol neu gamdriniaeth hiliol, yn cael eu harchwilio gan yr Is-Adran Gorfodaeth Tenantiaid.

Mae bob tro yn ddefnyddiol i gadw cofnod o unrhyw ddigwyddiadau (e.e. dyddiad/amser) ac efallai gofynnir i chi lenwi taflenni cofnodion dyddiadur i'ch helpu gydag unrhyw ymholiadau.

Ni fydd y Cyngor yn cymryd ochrau yn ystod archwiliad ond bydd yn ceisio dod o hyd i ffeithiau'r cwyn a darganfod beth yw'r ffordd orau i ddatrys y broblem os profir bod toriad o gytundeb tenantiaeth / prydles.

Efallai gallwn helpu hefyd os yw'r cymydog sy'n achosi'r problemau yn berchen ar ei gartref ei hunan. Weithiau, er mwyn dod o hyd i'r ffeithiau i gyd, bydd angen i'r Cyngor siarad ag asiantaethau eraill er mwyn casglu gwybodaeth. Gall yr asiantaethau eraill gynnwys:

- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaeth Iechyd y Meddwl
- Y Gyfadran Addysg
- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc
- Is-Adran Diogelwch Cymunedol

Ar gyfer anghenion cymorth gallwn gysylltu â:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymorth Cyffuriau ac Alcohol
- Shelter Cymru
- Cefnogi Pobl

CAMAU GWEITHREDU Y GELLIR EU CYMRYD

Mae hawl gennych i fyw yn dawel yn eich cartref eich hunan a dylech fedru teimlo'n ddiogel. Mae yna fathau gwahanol o gamau gweithredu y gall y Cyngor eu cymryd i helpu datrys problemau cymdogion yn ystod eu harchwiliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgrifennu at neu gyfweld y person sy'n achosi'r problemau
- Darparu cymorth i helpu rhoi terfyn ar y problemau
- Cyfeirio at wasanaeth cyfryngu
- Cyfeirio at wasanaeth cymorth
- Cymryd gwaharddeb yn erbyn y person
- Gwneud cais i'r llys i feddiannu eu cartref

CAMAU GWEITHREDU NA ELLIR EU CYMRYD

- Ni ellir dadfeddiannu tenantiaid sy'n torri eu hamodau tenantiaeth heb fynd i'r Llys neu os nad oes digon o dystiolaeth i gymryd camau cyfreithiol
- Ni ystyrir gwasanaethau cyfryngu oni bai bod pawb yn barod i gymryd rhan er mwyn datrys y broblem
- Ni ellir gweithredu os nad yw'n broblem ddigon difrifol, neu os nad yw'r gyfraith wedi cael ei thorri, neu os nad oes digon o dystiolaeth

Mae manylion cyswllt swyddfeydd ar gael ar y daflen 'Cysylltu â Ni' y llawlyfr hwn.

Mae'r siart lif yn y llyfryn hwn hefyd yna i'ch helpu chi i benderfynu beth i'w wneud nesaf os oes gennych broblemau.

Cofiwch.....

**Mae Tenantiaid
Ystyriol a Gofalgar
Caerffili
Yn Buddio'u
Cymunedau!!**

Beth ddylech chi ei wneud?

Dechreuwch Yma

